OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1438 (Cy.150)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 4 Mehefin 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 6 Mehefin 2008
Yn dod i rym - - 1 Gorffennaf 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 5(1), 5(6), 6(1) a (6)(1A) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, chychwyn a cyhmhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i lestri pysgota—

(**1**) 1967 p. 84. Amnewidiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), adran 22(1). Diwygiwyd adran 5(6) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adran 22(2). Diwygiwyd adran 6(1) gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (6)(a). Mewnosodwyd adran 6(1A) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adran 23(2) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (2)(b). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77), adran 22(1), Atodlen 1, Rhan II ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 43(1), (2)(b). *Gweler* adran 22(2) o Ddeddf 1967 am ddiffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adrannau 5, 6 a 15(3) o'r Ddeddf honno; diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(a), (b) ac (c) a 46(2), Atodlen 5, Rhan II a chan O.S. 1999/1820, Erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(1), (12) a Rhan IV a chan Ddeddf Cyfansoddiad Gogledd Iwerddon 1973, adran 40, Atodlen 5, paragraff 8(1).

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5, 6 a 15 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol o ran adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(a) o fewn ystyr Erthygl 3(c) o Reoliad y Cyngor (EC) 2371/2002 ar gadwraeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin(**3**), sydd wedi eu cofrestru mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu

(b) sydd wedi eu cofrestru mewn trydedd wlad.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ci glas" ("*tope*") yw'r rhywogaeth *Galeorhinus galeus*; ac

mae i "Cymru" yw'r ystyr a roddir i "*Wales*" gan adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**4**).

Gwahardd pysgota

3.—(1) Gwaherddir pysgota am gŵn gleision (heblaw â gwialen a lein).

(2) Os cymerir cŵn gleision ar fwrdd cwch, caniateir eu cadw ar yr amod nad yw cyfanswm y pwysau byw dros 45 cilogram mewn diwrnod.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "pwysau byw" yw pwysau carcasau cŵn gleision wedi eu diberfeddu wedi eu lluosogi â ffactor o 1.125.

Gwahardd trawslwytho

4. Gwaherddir trawslwytho cŵn gleision.

Gwaherddir glanio

5. Ni chaiff unrhyw berson lanio yng Nghymru —

(a) cŵn gleision a ddaliwyd â gwialen a lein, neu

(b) cŵn gleision y torrwyd eu pennau.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig

6.—(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn, caiff swyddog arfer y pwerau a ganlyn.

(2) Caiff swyddog fynd ar fwrdd cwch pysgota, gyda neu heb bersonau a bennwyd i gynorthwyo'r swyddog i arfer ei ddyletswyddau, ac at y diben hwnnw caiff ei gwneud yn ofynnol i'r cwch aros a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.

(3) Caiff swyddog ei gwneud yn ofynnol bod meistr a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymchwiliad y mae'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol ei wneud at ddiben gorfodi'r Gorchymyn hwn ac, yn enwedig—

(a) caiff archwilio unrhyw bysgodyn ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol i bersonau ar fwrdd y cwch wneud unrhyw beth y mae'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol ei wneud i hwyluso'r archwiliad;

(b) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ar fwrdd y cwch ddangos unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, â'i waith pysgota neu â gwaith cysylltiedig neu â phersonau ar fwrdd y cwch, sydd yng ngafael neu ym meddiant y person hwnnw a chaiff gymryd copïau o'r cyfryw ddogfen;

(**3**) OJ Rhif L358, 31.12.2002, t.59, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) 865/2007 (OJ Rhif L192, 24.07.2007, t.1). Mae Erthygl 10 yn caniatáu mesurau, sy'n gymwys i lestri sy'n cyhwfan baner eu haelod-wladwriaeth eu hun, ar gyfer rheolaeth a chadwraeth stociau, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

(**4**) 2006 p.32.